**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Tachwedd 12fed 2014 am 6.45 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw, Llangernyw

Ymddiheuriadau:

Presennol: Elen H Edwards (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ifor G Edwards, Ian W Griffith, Gerwyn Davies a'r Clerc.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a mynegodd gydymdeimlad y Cyngor â Mrs Diane M Roberts yn ei phrofedigaeth o golli ei mam a'i chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar.

32.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad mewn eitem ar yr Agenda. Mynegodd Ifor Edwards gysylltiad ag eitem 3 –Cais Cynllunio Rhif 0/41135

32.2 CEISIADAU CYNLLUNIO
32.2.1 Cais Rhif 0/41177 Codi Adeilad Amaethyddol (cymeradwyaeth amaethyddol blaenorol) yn Rhos y Mawn, Llangernyw gan Mr Gareth Williams. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

32.2.2 Cais Rhif 0/41184 Adeiladu sied amaethyddol ar dir ger Tyddyn Dolben, Llangernyw gan Mr Glyn Davies. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

32.2.3 Cais Rhif 0/41135 Tyrbin gwynt Hendre Llwyn y Maen. Derbyniwyd gwybodaeth pellach am y cais. PENDERFYNWYD i dderbyn yr adroddiad ond i nodi nad oedd y Cyngor yn newid ei sylwadau blaenorol ar y cais.

32.3 POLISÏAU'R CYNGOR
32.3.1 POLISI CYFLE CYFARTAL A CHYDRADDOLDEB
PENDERFYNWYD i dderbyn y polisi yn dilyn gwneud cais am grant Adnewyddu Pentrefi.

32.3.2 POLISI IAITH
PENDERFYNWYD derbyn y polisi yn dilyn gwneud cais am grant Adnewyddu Pentrefi.

32.4 GRANT ADNEWYDDU PENTREFI
Adroddodd y Clerc bod cais wedi ei gyflwyno am grant i brynu 3 mainc, 8 blwch dal blodau a bin sbwriel. Cynigiodd Diane Roberts y byddai'n medru derbyn y nwyddau i'w chartref. PENDERFYNWYD bod pawb i feddwl cyn y cyfarfod nesaf mewn pythefnos beth i'w wneud â'r hen feinciau.

32.5 CRONFA BRO CERNYW – gan nad oedd 20fed Tachwedd yn hwylus erbyn hyn PENDERFYNWYD i gyfarfod ar 1af Rhagfyr i drafod y ceisiadau a bod y Clerc i sganio'r ceisiadau a'u hanfon ar ebost i'r aelodau o flaen llaw.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30yh

*Cymeradwywyd y Cofnodion..................................................  Dyddiad..............................*